

Monitro tlodi ac eithrio cymdeithasol yng Nghymru 2011

Canfyddiadau
Llywio newid

Gorffennaf 2011

Y ddogfen *Canfyddiadau* hon yw'r trydydd diweddariad i *Monitro tlodi ac eithrio cymdeithasol yng Nghymru*. Fe'i cyhoeddir wedi i Lywodraeth Cymru ailddatgan ei bod yn amcanu at ddileu tlodi plant erbyn 2020. Ar ôl ymchwilio i hanes sydd wedi bod yn gymysg dros y deng mlynedd ddiwethaf, mae'r ddogfen hon yn ystyried i ba raddau y gallai cyfradd cyflogaeth uwch fod o gymorth i Gymru gyrraedd ei nod – a beth allai goblygiadau ehangach hyn fod.

Pwyntiau allweddol

- Mae bron i 400,000 o oedolion o oedran gweithio, 200,000 o blant a 100,000 o bensiynwyr yng Nghymru mewn tlodi pan fo hynny'n cael ei fesur ar sail incwm isel ar ôl didynnu costau tai. Mae traean o'r oedolion hyn naill ai'n anabl eu hunain neu â phartner anabl. Mae chwarter y plant yma'n byw gydag o leiaf un oedolyn anabl.
- Mae hanner y plant mewn tlodi'n perthyn i deuluoedd sy'n gweithio.
- Mae hanner y gwelliant yn y gyfradd tlodi plant rhwng canol degawd olaf yr 20fed ganrif a chanol degawd cyntaf yr 21ain ganrif wedi cael ei gollu yn y pum mlynedd ddiwethaf.
- Mae lefel cymwysterau pobl 25 – 44 oed yn sylweddol uwch nag oedd ddeng mlynedd yn ôl, gyda bron pedwar ym mhob deg bellach yn meddu ar gymhwyster uwchlaw Lefel 3.
- Mae targed newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer tlodi plant yn golygu ei bod yn ofynnol cael gostyngiad o bedair rhan o bump yn y gyfradd rhwng nawr a 2020.
- Mae'r lefel gyflogaeth uwch ymhlith rhieni sy'n angenrheidiol er mwyn mynd yn agos at y targed yn golygu y bydd yn ofynnol cael gostyngiadau yn nifer y teuluoedd heb waith a'r teuluoedd sy'n gweithio'n rhannol. Teuluoedd sy'n gweithio'n llawn (lle mae gan bob oedolyn swydd lawn-amser neu, yn achos teuluoedd â chyplau, lle bydd gan un ohonynt swydd lawn-amser a'r llall swydd ran-amser) fydd y norm.
- Er mwyn i hyn beidio â digwydd ar draul ansawdd bywyd teuluoedd, efallai y bydd angen i wasanaethau allweddol, o ofal plant a gofal iechyd i gludiant, gael eu haddasu i helpu teuluoedd i ymdopi. Bydd hyn yn gofyn am ymdrechion cydunol gan Lywodraeth Cymru ar bolisiau sy'n ymwneud â chyflogaeth, sgiliau a gofal plant, a chan Lywodraeth y DU ar faterion sy'n ymwneud â threthi a budd-daliadau.

Yr ymchwil

Gan Anushree Parekh a Peter Kenway, Y Sefydliad Polisi Newydd

Tlodi yng Nghymru

Niferoedd mewn aelwydydd incwm isel

Mae Ffigur 1 yn dangos nifer y bobl a oedd yn byw mewn aelwydydd incwm isel yng Nghymru yn y tair blynedd fwyaf diweddar y mae'r data hwn ar gael ar eu cyfer (hyd at 2008/09).

Ar y cyfan, mae rhyw 680,000 o bobl yn byw mewn aelwydydd incwm isel yng Nghymru, rhyw 23% o'r boblogaeth gyfan. O'r rhain, y 220,000 o oedolion heb blant dibynnol yw'r grŵp mwyaf, a phlant, sy'n rhoi cyfrif am 200,000, yw'r ail fwyaf.

O'i gymharu â deng mlynedd yn ôl mae niferoedd y pensïynwyr, plant, ac oedolion o oedran gweithio â phlant dibynnol sydd mewn aelwydydd incwm isel oll wedi gostwng tra bo nifer yr oedolion o oedran gweithio heb blant dibynnol wedi codi. O ganlyniad, lle'r oedd plant a phensïynwyr yn rhoi cyfrif am ychydig dros hanner y bobl mewn aelwydydd incwm isel ddeng mlynedd yn ôl, maent bellach yn rhoi cyfrif am lai na hanner.

Mae traean o'r oedolion o oedran gweithio heb blant dibynnol sydd mewn aelwydydd incwm isel naill ai'n anabl eu hunain ac/neu â phartner anabl. Ymhlith y rheiny â phlant dibynnol, chwarter yw'r gyfran hon. Ar gyfer yr holl bobl o oedran gweithio (a'u plant dibynnol), mae bod ag aelod anabl o'r teulu sy'n oedolyn yn achosi cynnydd o ryw hanner yn y risg o incwm isel. O'i gyferbynnu, er bod chwech ym mhob deg o bensiynwyr naill ai'n anabl eu hunain neu â phartner sy'n anabl, mae'r gyfran hon yr un fath ni waeth a yw'r teulu o bensiynwyr yn y categori incwm isel ai peidio. Bydd diwygio budd-daliadau anabledd, gan gynnwys Lwfans Byw i'r Anabl (DLA), yn cael effaith gref ar dlodi ymhlith pobl o oedran gweithio yng Nghymru. Wrth iddynt gynyddu nifer y bobl a fydd wrthi'n ceisio gwaith, gan roi pwysau pellach ar farchnad swyddi wan, bydd y diwygiadau'n cael effeithiau y tu hwnt i'r bobl sy'n anabl a'u teuluoedd.

Y gyfradd tlodi plant

Mae Ffigur 2 yn dangos y gyfran o blant a oedd yn byw mewn aelwydydd incwm isel (y 'gyfradd tlodi plant') yng Nghymru dros y 13 mlynedd hyd at 2009/10 y mae'r data ar gael ar eu cyfer.

Ar sail y ffigyrau ar ôl costau tai, fe ostyngodd y gyfradd tlodi plant yn weddol gyflym rhwng dechrau degawd cyntaf yr 21ain ganrif a 2005/06, ac ers hynny mae wedi codi eto. Mae'r gyfradd o 33% yn dal i fod ryw 3% yn is na deng mlynedd yn ôl. Ond mae hefyd 5% yn uwch na'r ffigwr isaf a gafwyd.

Ar sail y ffigyrau cyn costau tai, mae'r gyfradd 5% yn is na deng mlynedd yn ôl ac 1% yn uwch na 2005/06. Er y gall

Diffinio a mesur tlodi

Y diffiniad o dlodi yw pan fo adnoddau pobl mor bell islaw'r norm ar gyfer y gymdeithas y maent yn byw ynddi fel eu bod i bob pwrpas 'wedi'u heithrio o batrymau, arferion a gweithgareddau byw arferol'.

Caiff tlodi ei fesur fel arfer gan ddefnyddio ystadegau swyddogol ar incwm aelwyd isel. Mae'r prif fesur yn defnyddio'r trothwy o 60% o'r canolrif ar gyfer incwm aelwydydd yn y DU yn yr un flwyddyn ar ôl gwneud addasiad ar gyfer maint yr aelwyd. Mae mesurau eraill, â gwahanol drothwyon (e.e. 50%), trothwyon sy'n ymwneud ag amser penodol, neu fesurau sy'n cynnwys amddifadedd sylweddol, hefyd yn cael eu defnyddio.


Ar sail y ffigyrau diweddaraf, mae'r trothwy o 60% yn werth £124 i oedolyn sengl, £214 i gwbl heb blant, £210 i riant sengl â dau blentyn dan 14, a £300 i gwpl â dau blentyn dan 14.

Mae'r rhain yn symiau ar ôl didynnu treth incwm a threth gyngor ac ar ôl talu costau tai (AHC) – sef rhent neu log ar forgais yn bennaf. Caiff ystadegau swyddogol eu cyhoeddi ar sail ffigyrau cyn costau tai (BHC) hefyd.

Ffigur 1: Nifer y plant, oedolion o oedran gweithio a phensiynwyr mewn aelwydydd incwm isel



Ffigur 2: Y gyfradd tlodi pant (cyfartaleddau fesul tair blynedd)



Ffynhonnell: Tabl 4.16ts, Arolwg o Deuluoedd ag Incwm Is na'r Cyfartaledd 1994/95-2009/10, DWP

ymddangos bod y tueddiadau yn y ffigurau ar ôl costau tai a chyn costau tai yn wahanol yn y tair blynedd ddiwethaf, mae maint yr ansicrwydd ynghylch y data'n golygu nad yw'r gwahaniaeth ymddangosol hwn yn sylweddol.

O'i chymharu â'r gwledydd eraill yn y DU, Cymru sydd â'r gyfradd uchaf pan ddefnyddir y ffigurau ar ôl costau tai (2% yn uwch na Lloegr, 5% yn uwch na Gogledd Iwerddon ac 8% yn uwch na'r Alban) a'r gyfradd ail uchaf pan ddefnyddir y ffigurau cyn costau tai.

Y targed erbyn 2020


Mae strategaeth tlodi plant newydd Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011, yn ailddatgan yr ymrwymiad i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae'n diffinio 'dileu' fel sefyllfa lle bydd dim mwy na 5% o blant yn byw mewn aelwyd incwm isel ar sail y ffigurau cyn costau tai (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Strategaeth Tlodi Plant Cymru, Chwefror 2011), sy'n ostyngiad o bedair rhan o bump o'i gymharu â'r lefel gyfredol. Mae hyn yn fwy uchelgeisiol na Deddf Tlodi Plant 2010 a oedd yn pennu targed o 10% erbyn 2020.

Tangyflogaeth

Mae Ffigur 3 yn dangos sawl gwahanol agwedd ar syniad ehangach o tangyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys diweithdra (yn dymuno cael gwaith, wrthi'n chwilio am waith ac ar gael ar unwaith i ddechrau gwaith); y rheiny sy'n dymuno cael gwaith ond sydd naill ai heb fod wrthi'n chwilio am waith neu heb fod ar gael ar unwaith; a'r rheiny sy'n gweithio'n rhan-amser ond sy'n dymuno cael swydd lawn-amser. Mae'r safbwynt eang hwn yn rhoi darlun gwell o'r galw gostyngol am§ lafur dros amser.

Nid yw'r ystadegau manwl a ddefnyddir yma ond wedi bod ar gael ers 2004, pan gyrhaeddodd diweithdra yng Nghymru'r lefel isaf o 4.2%. Mae hyn yn cymharu â lefel uchel ddiweddar (2010) o 9.3% a lefel uchaf flaenorol (1992) o 10.5%.

Ffigur 3: Tangyflogaeth yn ôl oedran a rhyw, 2004 a'r cynnydd erbyn 2010



Ffynhonnell: Ystadegau ar y Farchnad Lafur Ranbarthol, Ebrill 2011, ONS

Gyda'i gilydd, roedd rhyw 305,000 o oedolion o oedran gweithio wedi'u tangyflogi yn 2010, sy'n gynydd o hanner o 195,000 yn 2004.

Wrth ystyried diweithdra, bu cynnydd sylweddol ymhlith dynion ifanc 16 i 24 oed, o 17,000 yn 2004 i 40,000 yn 2010. O'i gyferbynnu, cafwyd cynnydd o 5,000 yn unig mewn diweithdra ymhlith menywod ifainc. Un o ganlyniadau hyn yw bod, am y tro cyntaf, ychydig yn fwy o fenywod ifainc nag o ddynion ifainc mewn gwaith.

Mae diweithdra hefyd wedi cynyddu'n gyflym ymhlith dynion 25 i 64 oed. Yn 2010 roedd 39,000 o ddynion di-waith, cynnydd o 22,000 ers 2004. Mae nifer y menywod di-waith yn y grŵp oedran hwn wedi dyblu i 28,000.

Bu cynnydd o 24,000 yn nifer y bobl sy'n anweithgar yn economaidd ac yn dymuno cael gwaith am dâl, ac mae'r cynnydd bron yr un faint ymhlith dynion a menywod. Ond erbyn hyn nid yw'r nifer hwn yn uwch na'r nifer sy'n ddi-waith, fel y bu am gryn amser, oherwydd y cynnydd llawer cyflymach mewn diweithdra.

Mae nifer y bobl â swydd ran-amser sydd, er hynny, yn dymuno cael swydd lawn-amser 23,000 yn uwch. Mae'r ffigwr hwn yn cyfateb i'r cynnydd cyffredinol dros y cyfnod yn y niferoedd sydd mewn swyddi rhan-amser.

Lefelau cymwysterau ymhlith pobl 25 – 44 oed

Mae sgiliau'n ganolog i wella rhagolygon bywyd unigolyn, o ran sicrhau gwaith a chael gwell cyflog. Gellir defnyddio ystod o fesurau o sgiliau, a'r mwyaf cyffredin o'r rhain yw cymwysterau, er ei bod yn bosib meddu ar sgiliau heb feddu ar gymwysterau, ac mae'r un peth yn wir fel arall hefyd.


Mae Ffigur 4 yn dangos lefelau cymwysterau pobl 25 – 44 oed yn 2000 ac yn 2010. Dewiswyd y grŵp oedran yma am fod y mwyafrif o rieni â phlant dibynnol yn perthyn iddo. Mae NQF Lefel 2 yn cyfeirio'n fwyaf cyffredin at bump TGAU neu fwy â graddau A* - C neu gymwysterau cyfwerth ac mae Lefel 3 yn cyfeirio at ddau gymhwyster Safon Uwch neu fwy.

Os ydym yn anwybyddu statws gweithio, mae'n amlwg bod gan bobl 25 – 44 oed yn 2010 fwy o gymwysterau nag oedd gan bobl 25 – 44 oed ddeng mlynedd yn gynharach. Mae'r ffigwr o 280,000 â chymwysterau uwchlaw Lefel 3 90,000 yn uwch. Mae'r ffigwr o 320,000 â chymwysterau ar Lefelau 2 neu 3 40,000 yn is. Mae'r ffigwr o 130,000 â chymwysterau islaw Lefel 2 100,000 yn is. O ganlyniad, fe newidiodd y dosbarthiad o rywbeth tebygol i 25-50-25 yn 2000 i rywbeth tebycach i 40-40-20 yn 2010.

Beth sydd wrth wraidd hyn? Yn y bôn, mae'r graff yn cyfuno dwy effaith. Y gyntaf yw'r gwelliant mewn cymwysterau – effaith 'sy'n ymwneud â dysgu gan oedolion' – ymhlith y bobl a oedd yn 25 – 34 oed ddeng mlynedd yn ôl, sef y bobl 35 i 44 oed yn 2010. Yr ail yw'r gwahaniaeth rhwng dau grŵp sydd 20 mlynedd ar wahân mewn oedran – effaith 'sy'n ymwneud â'r cenedlaethau' – sef y bobl sy'n 25 - 34 oed yn 2010 a'r bobl a oedd yn 35 – 44 oed ddeng mlynedd yn ôl.

Mae dadansoddiad manylach o'r ystadegau a ddangosir yma'n awgrymu bod y ddwy effaith yn cyfrannu i'r un graddau at y cynnydd yn y niferoedd â chymhwyster uwchlaw Lefel 3. O'i gyferbynnu, mae'r gostyngiad mewn niferoedd islaw Lefel 2 i'w briodoli gan mwyaf i'r effaith sy'n ymwneud â'r cenedlaethau. Os yw'r casgliad petrus hwn yn gywir, mae'n awgrymu bod y rheiny sydd â chymwysterau isel neu sydd heb gymwysterau o gwbl yn llai tebygol o gamu ymlaen i ddarpariaeth dysgu i oedolion na phobl â chymwysterau ar lefelau canolog. Ar y cyfan

Ffigur 4: Cymhwyster uchaf yn ôl statws gweithio, 2000 a 2010



Ffynhonnell: Arolwg o'r Farchnad Lafur, ONS, 2000 a 2010, cyfartaleddau dros bedwar chwarter yw'r rhifau

efallai nad yw cynnydd gyda chymwysterau felly'n dwyn goblygiadau mor gadarnhaol â hynny i dlodi.

A throi at statws gweithio, mae'n amlwg bod cymwysterau'n cynyddu'r tebygolrwydd o gael gwaith. Roedd 90% o'r rheiny â chymhwyster uwchlaw Lefel 3 yn gyflogedig o'i gymharu â 75% o'r rheiny â chymwysterau ar lefelau canolig a 60% o'r rheiny â chymwysterau ar y lefelau isaf. Nid yw'r cyfrannau hyn wedi newid rhyw lawer dros y deng mlynedd ddiwethaf.

Ymhlith y rheiny sy'n weithgar yn economaidd, mae'r stori'n wahanol. Roedd bron i 98% o'r rheiny â chymwysterau uwchlaw Lefel 3 mewn gwaith, o'i gymharu ag 85% yn unig o'r rheiny â chymwysterau ar y lefelau isaf. Mae'r cyfraddau diweithdra ar gyfer y rheiny â chymwysterau ar y lefelau isaf a'r lefelau canolig hefyd ill dwy wedi cynyddu dros y deng mlynedd, rhyw 5%. O'i gymharu, mae'r gyfradd ddiweithdra ar gyfer y rheiny â chymwysterau uwchlaw Lefel 3 wedi gostwng ychydig.

Ar draws y boblogaeth sydd o oedran gweithio ar y cyfan, (16 i 64 oed), cafodd y rheiny â'r cymwysterau isaf eu taro'n galed gan y dirwasgiad ac mae eu cyfradd cyflogaeth wedi gostwng bron 10% dros y tair blynedd o 2007.

Gostwng tlodi plant: I ba raddau y gall cyflogaeth uwch helpu?

Yng ngoleuni'r targed newydd i ddileu tlodi plant, gellir defnyddio data am y 'risg' o dlodi sy'n gysylltiedig â gwahanol statysau gweithio teuluoedd i ganfod faint o ostyngiad mewn tlodi plant y gellid ei ddisgwyl pe bai cyfradd cyflogaeth rhieni'n uwch.

Incwm isel a statws gweithio teuluoedd

Er nad yw gwaith am dâl yn sicrhau y bydd teulu'n osgoi incwm isel, mae'r tebygolrwydd, neu'r risg, y bydd gan deulu sy'n gweithio incwm isel lawer yn llai nag ar gyfer teulu nad yw'n gweithio. Ond nid yw'n ddigon ystyried a yw teulu'n gweithio a hynny'n unig, gan fod gwahaniaeth mawr yn y 'risg' o incwm isel rhwng teuluoedd 'sy'n gweithio'n llawn' a theuluoedd 'sy'n gweithio'n rhannol'.

Teuluoedd 'sy'n gweithio'n llawn' yw'r rhai lle mae gan yr holl oedolion swydd lawn-amser neu, yn achos teuluoedd â chyplau, lle mae gan un oedolyn swydd lawn-amser a lle mae gan y llall swydd ran-amser. Mae'r holl deuluoedd eraill lle gwneir gwaith am dâl yn rhai 'sy'n gweithio'n rhannol'. Yn ogystal â'r rheiny lle mae'r unig swyddi'n rhai rhan-amser, mae hefyd yn cynnwys cyplau lle mae gan un ohonynt swydd lawn-amser tra bo'r llall yn aros gartref.

Mae'r ddwy golofn gyntaf yn Nhabl 1 yn dangos nifer y plant yng Nghymru ym mhob statws gweithio ar gyfer teuluoedd, ynghyd â'r risg o incwm isel (ar sail y ffigyrau cyn costau tai er mwyn cael cysondeb â'r targed ar gyfer tlodi plant). Mae pwysigrwydd gweithio'n rhannol yn amlwg. Mae bron i 4 ym mhob 10 plentyn (240,000) yng Nghymru'n perthyn i'r grŵp yma. Er bod y risg o incwm isel yn llai na hanner yr hyn ydyw ar gyfer teuluoedd heb waith (29% o'i gymharu â 65%), mae'n dal i fod yn sylweddol ac mae gryn dipyn yn uwch na'r risg ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio'n llawn (2%). Ar sail y ffigyrau diweddaraf, mae'r risg o incwm isel i blant yng Nghymru ar y cyfan yn 25%.

Gellir dangos effaith cynnydd yng nghyfradd cyflogaeth rhieni yn nhermau newid o grwpiau statws gweithio risg-uchel i rai risg-isel, fel y gwelir yn y ddwy enghraifft. Maent yn tybio bod y risgiau o incwm isel ar gyfer pob un o'r tri grŵp yn parhau'n ddigynfnewid.

Tabl 1: Incwm isel a statws gwaith teuluoedd

<i>Statws gwaith teuluoedd</i>	<i>'Risg' o incwm isel ar sail ffigyrau cyn costau tai 2006/7 to 2008/9</i>	<i>Nifer y plant</i>	<i>Enghraifft 1: Hanner y plant mewn teuluoedd heb waith yn cael eu symud i deuluoedd sy'n gweithio'n rhannol</i>	<i>Enghraifft 2: Hanner y plant mewn teuluoedd heb waith yn cael eu symud i deuluoedd sy'n gweithio'n llawn</i>
Teuluoedd nad ydynt yn gweithio	65%	130,000	65,000	65,000
Teuluoedd sy'n gweithio'n rhannol	29%	240,000	305,000	120,000
Teuluoedd sy'n gweithio'n llawn	2%	250,000	250,000	435,000
Y gyfradd tlodi plant ar y cyfan ar sail ffigyrau cyn costau tai		25%	21%	13%

Yn enghraifft 1, mae hanner y teuluoedd sydd heb waith yn newid i fod yn deuluoedd sy'n gweithio'n rhannol. Mae'r newid hwn mewn statws gweithio'n achosi gostyngiad yn y gyfradd tlodi plant ar sail ffigyrau cyn costau tai o 25% i 21%.

Yn enghraifft 2, mae hanner y teuluoedd heb waith a hanner y teuluoedd sy'n gweithio'n rhannol yn newid i fod yn deuluoedd sy'n gweithio'n llawn (er enghraifft, am fod yr ail riant yn dechrau gweithio). Y tro hwn, mae'r gyfradd tlodi plant ar sail ffigyrau cyn costau tai'n gostwng tua hanner, o 25% i 13%. Mae hefyd yn dwyn effaith o ran gwneud 'gweithio'n llawn' yn norm ymhlith teuluoedd mewn ffordd nad ydyw ar hyn o bryd.

Goblygiadau i gyflogaeth

Gan ddefnyddio mwy o wybodaeth am faint a statws gweithio teuluoedd ymhlith teuluoedd â chyplau a theuluoedd un rhiant, amcangyfrifir (gyda chryn dipyn o ansicrwydd) fod y ddwy enghraifft yn golygu bod angen i gyfradd cyflogaeth rhieni fod yn uwch nag ydyw ar hyn o bryd a bod y cynnydd sy'n ofynnol yn cyfateb i tua 20,000 ac 85,000 o swyddi llawn-amser yn y drefn honno. O'i gymharu â'r 1.1 miliwn o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn 2010 (ONS, Ystadegau'r Farchnad Lafur Ebrill 2001: Cymru, tabl 3), mae'r cynnydd sy'n ofynnol yng nghyfradd cyflogaeth rhieni'n cynrychioli tua 2% ac 8% o'r cyfanswm yn y drefn honno.

O ystyried bod cynnydd o 14% wedi bod mewn cyflogaeth yng Nghymru yn y deng mlynedd cyn dechrau'r dirwasgiad yn 2007 (ONS, Ystadegau'r Farchnad Lafur Ebrill 2011: Cymru, tabl 1) nid yw'r naill ffigwr na'r llall i'w weld yn fawr. Ond yn amlwg ni fyddai rhieni â phlant dibynnol (sy'n rhoi cyfrif am ryw 40% o'r rheiny sydd mewn gwaith ar hyn o bryd) yn derbyn y cwbl – na hyd yn oed y rhan fwyaf o bosib – o unrhyw gynnydd mewn swyddi. Nid yw'r rhagolygon ar gyfer twf cyflogaeth – cynnydd o 3% mewn cyflogaeth yn y DU erbyn 2015 yn ôl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – gystal ag yn y cyfnod cyn 2007.

Casgliadau ar gyfer polisi

Os yw'r hanes dros ddeng mlynedd yn hynod siomedig, mae'n allweddol bwysig cydnabod ei fod yn gyfuniad o gyfnod hwy o gynnydd cyson ar y naill law a chyfnod byrrach o ddirywio sydyn ar y llaw arall. Er nad dyma'r unig ffactor, mae diweithdra wedi dilyn patrwm tebyg. Nid yw tlodi'n anochel nac yn anghyfnewidiol.

Mae'r targed ar gyfer tlodi plant yng Nghymru'n eithriadol o uchelgeisiol. Er bod gan gyflogaeth gynyddol ran fawr i'w chwarae wrth fynd ar drywydd y targed, ni all gyrraedd y targed ar ei phen ei hun. Mae ymrwymiad i ddileu tlodi'n golygu bod angen i bolisiau fod wedi'u cyfeirio tuag at ostwng nifer y teuluoedd sy'n gweithio'n rhannol yn ogystal â nifer y rhai heb waith. Bydd angen i 'weithio'n llawn', nad yw'n norm ar hyn o bryd, newid fel mai dyma yw'r norm.

Hyd yn oed os yw'n lleihau'r pwysau ariannol ar deuluoedd, mae gweithio'n llawn yn cynyddu'r pwysau o ran amser. Mae'n bosib y bydd angen i ystod lawn o wasanaethau allweddol, o ofal plant a gofal iechyd i gludiant, gael eu hymestyn a'u haddasu i helpu teuluoedd i ymdopi. Nid dim ond cyfrifoldeb un gweinidog yw hyn ond mae'n ymestyn ar draws Llywodraeth Cymru a thu hwnt, at ddarparwyr gwasanaethau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat fel ei gilydd.

Tybiaethau sy'n tanategu'r amcangyfrifon (yn seiliedig ar ystadegau swyddogol ar incwm isel)

- Mae teuluoedd â chyplau sy'n gweithio'n llawn yn cynnwys 1.5 o oedolion sy'n gweithio tra bo'r rhai sy'n gweithio'n rhannol yn cynnwys 0.75. Y ffigyrau cyfatebol ar gyfer teuluoedd un rhiant yw 1 a 0.5.
- Mae teuluoedd â chyplau'n cynnwys 2 o blant dibynnol ar gyfartaledd (1.7 ar gyfer teuluoedd un rhiant).
- Mae 70% o'r teuluoedd nad ydynt yn gweithio'n deuluoedd un rhiant.
- Mae 80% o'r teuluoedd sy'n gweithio'n rhannol yn deuluoedd â chyplau.

I gael mwy o wybodaeth

Ceir mwy o wybodaeth am y dadansoddiadau tanategol ar gyfer y ddogfen Canfyddiadau hon yn: www.npi.org.uk

Ceir mwy o wybodaeth am adroddiadau cysylltiedig yn www.jrf.org.uk/work/workarea/monitoring-poverty-and-social-exclusion

Mae'r ddogfen Canfyddiadau hon ar gael i'w lawrlwytho yn www.jrf.org.uk

Cyhoeddwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree, The Homestead, 40 Water End, Caer Efrog/York YO30 6WP. Mae'r prosiect hwn yn rhan o raglen ymchwil a datblygu JRF. Fodd bynnag, canfyddiadau'r awduron yw'r rhai a gyflwynir ac nid safbwyntiau'r Sefydliad ydynt o anghenraid. ISSN 0958-03084

Darllenwch fwy o Ganfyddiadau yn www.jrf.org.uk
Mae fformatau eraill ar gael.

Ffôn: 01904 615905 e-bost: info@jrf.org.uk